Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Dementia Meddyg Care - Porthmadog**

**Garth Road**
**Porthmadog**
**LL49 9BN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

Date_Last_Inspection_Completed_Donot_Delete

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Dementia Meddyg Care – Porthmadog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Meddyg Care (Porthmadog) Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 44 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 26 Mai 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol.' Mae tystiolaeth bod y gwasanaeth yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru a gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n gynnes, yn gartrefol ac yn ddiogel. Gwelsom ryngweithio caredig a gofalgar rhwng y staff a'r bobl a gefnogir, a ymatebodd yn gadarnhaol gyda gwên. Mae'r gwasanaeth wedi'i ddylunio i fod yn addas i bobl â dementia, ac mae'r staff wedi'u hyfforddi'n dda i gefnogi'r lefel hon o ofal. Mae'r cofnodion gofal yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod gan y staff y wybodaeth gywir i gefnogi'r bobl yn unol â'u dewisiadau.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sydd wedi'u recriwtio'n ddiogel, eu hyfforddi'n dda, ac sy'n cael eu cefnogi o ran eu dysgu a'u datblygiad parhaus. Mae'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol i fonitro ei ansawdd a'i effeithiolrwydd, a gwrandewir ar y bobl pan fyddant yn mynegi pryderon.
Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn ymrwymedig i ddatblygu'r gwasanaeth ar gyfer y bobl sy'n byw yno. Mae cynlluniau ar waith i adnewyddu ac addurno'r cartref a fydd yn gwella'r amgylchedd ac yn annog y bobl i ddefnyddio'r ardaloedd arbenigol.

## Llesiant

Caiff y bobl eu cefnogi i wneud penderfyniadau am eu bywyd o ddydd i ddydd er mwyn rhoi rheolaeth iddynt dros feysydd o'u dews, fel pryd i godi a mynd i'r gwely, beth i'w wisgo, beth i'w fwyta a sut a ble y maent am dreulio eu hamser. Lle mae pobl yn wynebu rhwystrau gwybyddol neu nad ydynt bob amser yn gallu cyfleu eu hanghenion yn llawn, caiff y rhain eu rhagweld gan staff sy'n adnabod y bobl yn dda ac sy'n cael eu cefnogi gan gynlluniau cymorth manwl. Mae'r unigolyn gweithgareddau a chyswllt â theuluoedd yn weithgar ac yn frwdfrydig dros wneud yn siŵr bod y bobl yn gallu gwneud pethau y maent yn eu mwynhau. Gwelsom fod bagiau gweithgareddau wedi'u personoli ar waith yr oedd y staff yn eu defnyddio gyda'r bobl i chwarae gemau, cymryd rhan mewn gweithgareddau synhwyraidd a darllen am eu hobïau a'u hoff awduron. Mae ei waith wedi cael ei gydnabod a'i ganmol gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae angen cymorth un i un ar rai o'r bobl er mwyn sicrhau eu diogelwch a/neu eu llesiant a gwelsom fod y darparwr yn sicrhau bod y lefelau staffio yn ddiogel i ddiwallu'r anghenion hyn. Gall y bobl fynd i ardaloedd amrywiol o'r gwasanaeth yn ddiogel ac mae eitemau o ddiddordeb i'r bobl yn cynnwys llyfrau, gemau a theganau meddal, yn ogystal ag ardaloedd ymgysylltu sy'n atgoffa'r bobl o gartref domestig a thaith drenau lleol. Mae'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol yn sicrhau bod y bobl y gallu defnyddio'r rhyngrwyd i wylio fideos a gwrando ar gerddoriaeth.

Caiff anghenion diwylliannol y bobl eu cydnabod a'u parchu. Gofynnir i'r bobl am eu dewis iaith ac unrhyw gredoau. Mae'r ymagwedd hon yn ymestyn i'r staff a gyflogir yn y cartref hefyd, sy'n creu cymuned amrywiol o fewn y gwasanaeth. Mae'r darparwr yn sicrhau bod y bobl yn gallu gwylio rhaglenni Cymraeg ar y teledu a gwrando ar raglenni Cymraeg ar y radio. Mae dogfennau, gan gynnwys cynlluniau personol, ar gael yn ddwyieithog yn y gwasanaeth. Caiff y staff eu cefnogi i feithrin eu sgiliau Cymraeg ac mae'r darparwr yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn y gwasanaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal cydberthnasau â theulu a ffrindiau a chadw mewn cysylltiad â nhw. Gellir ymweld â'r bobl yn y gwasanaeth ar unrhyw adeg a lle rhoddir cydsyniad, rhoddir lluniau a diweddariadau i berthnasau a chynrychiolwyr. Dywedodd un person wrthym ei fod yn mynd i'r caffi lleol ac i siopa am ddillad pan fydd angen iddo wneud hynny.

Caiff y bobl eu cadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu, a chaiff canllawiau ar ddiogelwch y bobl, gan gynnwys cyfyngiadau awdurdodedig, eu cofnodi yn y cynlluniau personol a'u monitro gan y gwasanaeth. Mae polisïau ar gael i'r staff yn ogystal â chanllawiau Cymru ar ddiogelu. Mae'r darparwr yn gwneud atgyfeiriadau at y bwrdd diogelu lleol yn ôl yr angen ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol er mwyn sicrhau bod y bobl mor ddiogel â phosibl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau. Mae'r darparwr yn cynnal asesiad cyn derbyn manwl a thrylwyr gyda'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr, gan ystyried gwybodaeth ychwanegol gan weithwyr cymorth a gofal iechyd proffesiynol blaenorol. Mae'r asesiadau yn cynnwys gwybodaeth am hanes bywyd y bobl, eu bywyd gwaith a dynameg y teulu, sy'n helpu'r darparwr i deilwra'r cymorth yn unol â'u gwerthoedd a'u diddordebau. Mae dyfnder y wybodaeth a gesglir yn werthfawr i sicrhau y caiff lleisiau'r bobl eu clywed lle y gallant wynebu rhwystrau i gyfathrebu neu amhariad gwybyddol. Mae'r cynlluniau personol yn rhoi cyfarwyddiadau manwl i'r staff gofal ar sut i ddiwallu anghenion y bobl, fel sut maent yn hoffi cael eu cefnogi o ran eu gofal personol neu sut i'w helpu i gael noson dda o gwsg. Mae'r cynlluniau personol yn ystyried risgiau i'r bobl a nodir drwy asesiadau a lle bo angen, rhoddir arweiniad i'r staff er mwyn sicrhau y gallant gefnogi'r bobl i fod yn ddiogel. Caiff y cofnodion eu hadolygu'n rheolaidd, ac mae'r system electronig yn atgoffa'r staff i gymryd camau gweithredu penodol. Gwelsom fod y cofnodion yn cael eu diweddaru pan fydd newidiadau a bod trafodaethau â pherthnasau'n cael eu cofnodi. Mae systemau da ar waith i fonitro anghenion iechyd penodol y bobl, fel pwysau, cwympiadau, maeth a'r defnydd o feddyginiaethau gwrthseicotig.

Mae'r tîm clinigol mewnol, sy'n cydweithio â gweithwyr proffesiynol allanol o'r bwrdd iechyd a gwasanaethau cymorth eraill, yn cefnogi'r bobl i gynnal eu llesiant corfforol ac emosiynol. Mae'r darparwr yn sicrhau y caiff atgyfeiriadau eu gwneud mewn modd amserol a gwelsom fod y bobl yn cael mewnbwn rheolaidd gan y meddyg teulu, nyrsys ardal, deietegwyr, therapyddion lleferydd ac iaith, nyrsys hyfywedd meinwe, therapyddion galwedigaethol a seiciatryddion. Caiff canllawiau a chynlluniau triniaeth gan weithwyr proffesiynol allanol eu cofnodi a'u diweddaru yng nghofnodion personol y bobl. Caiff hawliau'r bobl eu hamddiffyn gan fod y darparwr yn sicrhau bod y fframweithiau cyfreithiol gofynnol ar waith ac yn cael eu dilyn. Caiff y bobl eu cefnogi gan eiriolwyr annibynnol ac asiantaethau allanol eraill fel Age Cymru.

Caiff meddyginiaethau eu rheoli'n ddiogel yn y gwasanaeth. Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel a'u rhoi yn unol â chanllawiau arfer da. Mae'r cofnodion meddyginiaeth electronig yn darparu mesurau diogelu ychwanegol, fel bod y bobl yn cael y feddyginiaeth gywir ar yr adeg gywir. Caiff cyffuriau a reolir eu storio a'u cofnodi'n briodol, a lle mae cyfarwyddiadau penodol ar gyfer rhoi meddyginiaeth i bobl, gwelsom fod y gwaith papur gofynnol ar waith a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i awdurdodi gan weithiwr meddygol proffesiynol.
Mae gweithdrefnau atal a rheoli heintiau ar waith. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant yn y maes hwn ac mae cyfarpar diogelu personol ar gael os oes angen.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n eu galluogi i symud o amgylch yn ddiogel a dewis ble maent am dreulio eu hamser. Gall y bobl ddewis treulio amser yn eu hystafell wely, mewn ardal fwyta/lolfa fawr neu yn un o'r ddwy ystafell dawelach ar y llawr gwaelod. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei addurno mewn ffordd ddiddorol, gydag arwyddion dwyieithog sy'n addas i bobl â dementia ac ardaloedd o ddiddordeb sy'n cynnwys murluniau, blwch post a nodwedd ddŵr. Caiff annibyniaeth a chysur y bobl eu hyrwyddo gan fod cyfarpar addas sydd mewn cyflwr da ar waith. Mae'r tîm cadw tŷ yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod y bobl yn byw mewn amgylchedd glân a chartrefol. Anogir y bobl a'u cynrychiolwyr i bersonoli ardaloedd personol â lluniau, dodrefn ac eitemau sy'n bwysig iddynt er mwyn creu awyrgylch cyfarwydd sy'n helpu'r bobl i addasu i'w hamgylchedd newydd.
Mae'r gegin yn drefnus ac mewn cyflwr da iawn. Yn dilyn arolygiad diweddaraf yr Asiantaeth Safonau Bwyd, dyfarnwyd sgôr o 5 i'r gwasanaeth, sef y sgôr uchaf y gellir ei hennill. Mae gan y darparwr gynlluniau ar waith i ddatblygu'r ardal fwyta er mwyn annog y bobl i wneud tasgau dyddiol, fel gwneud diodydd a pharatoi byrbrydau, a gwella'r profiad amser bwyd.

Mae tîm cynnal a chadw ar waith sy'n cynnal gwiriadau yn y gwasanaeth er mwyn nodi a lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Caiff meysydd fel diogelwch nwy, trydan a lifftiau eu profi a'u gwasanaethu'n rheolaidd. Caiff gwiriadau diogelwch tân allanol eu cynnal yn ogystal â gwiriadau mewnol a gynhelir gan y tîm cynnal a chadw. Lle y nodir materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, eir i'r afael â nhw ar unwaith. Mae cynllun cynnal a chadw parhaus ar waith.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n cael ei gefnogi'n dda gan reolwyr a nyrsys profiadol sy'n meddu ar gymwysterau clinigol. Mae'r systemau sydd ar waith i fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yn sicrhau y caiff materion eu nodi ac yr ymatebir iddynt yn gyflym. Mae'r prosesau ansawdd yn cynnwys archwiliadau rheolaidd, hapwiriadau ac arolygiadau ffug a gynhelir gan y tîm rheoli, yr arweinydd clinigol a'r tîm ansawdd. Mae'r newidiadau diweddar yn nhîm arwain y cartref wedi cael eu cefnogi gan y cyfarwyddwr gweithrediadau, y rheolwr ansawdd ac aelodau eraill o staff profiadol yn y sefydliad. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac y gallant siarad â phobl os oes ganddynt bryderon. Rhoddodd un perthynas adborth cadarnhaol ar y cyfathrebu a'r camau a gymerwyd gan y cyfarwyddwr gweithrediadau i fynd i'r afael â phryderon a godwyd. Cafwyd adborth cadarnhaol pellach gan weithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref. Caiff y bobl a'u cynrychiolwyr eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd lle y gallant drafod eu safbwyntiau. Mae'r darparwr yn dosbarthu cylchlythyr misol sy'n cynnwys diweddariadau pwysig a gwybodaeth gyswllt aelodau allweddol o'r tîm, fel bod modd i'r bobl gysylltu â nhw os oes angen.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sydd wedi'u recriwtio'n ddiogel, eu hyfforddi'n dda ac sy'n cael eu goruchwylio'n briodol. Gwnaethom edrych ar y cofnodion recriwtio a gwelsom fod yr holl wiriadau cyn cyflogi gofynnol wedi cael eu cwblhau cyn i unigolyn ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys geirdaon addas, a gwelsom fod gan bob aelod o'r staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Rhaid i bob aelod o'r staff gwblhau cyfnod sefydlu trylwyr sy'n cefnogi'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan sydd ei angen i gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae pob aelod o'r staff, gan gynnwys y staff gofal, y staff domestig a staff nyrsio, yn cwblhau hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl, sy'n golygu bod y bobl yn cael eu cefnogi gan staff gwybodus sy'n parhau i feithrin eu sgiliau. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant arbenigol ar ddementia ac yn rhoi dulliau seiliedig ar ymchwil ar waith i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cyflawni ei rôl fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, gan ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd a monitro darpariaeth y gwasanaeth. Mae'r adolygiad o ansawdd y gofal yn nodi lle mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda a'r meysydd y mae angen eu datblygu. Mae'r sefydliad yn gwerthfawrogi'r rhinweddau y mae'r staff yn eu cyfrannu at y cartref ac mae'n dathlu eu llwyddiannau.
Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn buddsoddi yn y cartref, a gwelsom gynllun adnewyddu ac ailaddurno sydd eisoes ar waith sy'n ystyried cynaliadwyedd ac effaith amgylcheddol.